



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

Medi 2020

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Cadwch y llythyr hwn, oherwydd mae'n cynnwys dyddiad y sesiwn a manylion cyswllt ar gyfer y nyrs ysgol.

Bydd y tîm nyrsio ysgol yn ymweld ag ysgol eich plentyn ar **03/12/2020** i gynnig **brechiad fflw chwistrell trwyn** i holl blant blwyddyn eich plentyn yn yr ysgol. Mae'n debyg bod eich plentyn wedi derbyn y brechiad hwn y llynedd yn yr ysgol, neu os oedd yn rhy ifanc, yn eich meddygfa.

**Anfonir ffurflen gydsynio a thaflen wybodaeth atoch trwy ysgol eich plentyn.**

1. Darllenwch y daflen wybodaeth am y brechiad fflw fel eich bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei gynnig i ddiogelu'ch plentyn.
2. Yna, cwblhewch y ffurflen, gan nodi eich bod un ai'n cytuno neu'n anghytuno i dderbyn y brechiad.
3. **Dychwelwch y ffurflen yn yr amlen i'ch ysgol i hysbysu'r nyrs ysgol o'ch penderfyniad cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu'r nyrs ysgol i wneud y trefniadau angenrheidiol**
4. I'n helpu i sicrhau bod y brechiad yn addas i'ch plentyn, darllenwch yr wybodaeth yn ofalus.

Helpwch i gadw'ch plentyn yn iach y gaeaf hwn, sicrhewch ei fod yn derbyn brechiad fflw. Eleni, rydym yn ymdrechu i gynyddu y cwmpas brechu rhag y Fflw yn sylweddol gan annog niferoedd uwch ymhob oedran o fewn ysgolion cynradd. Ewch i [www.curwchffliw.org](http://www.curwchffliw.org) a hefyd y daflen wybodaeth i gleifion yn [www.medicines.org.uk/emc](http://www.medicines.org.uk/emc) a theipiwch Fluenz.

**Ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen gydsynio i'r ysgol, os bydd unrhyw beth yn newid o ran iechyd eich plentyn cyn y sesiwn frechu, neu os bydd anadl eich plentyn yn gwichian neu ei feddyginiaeth asma yn cynyddu, cysylltwch â'r tîm nyrsio ysgol ar y rhif isod.**

Yn gywir

**Nyrs Ysgol: Iona Griffiths / Tracey Birch**

**Rhif cyswllt: 03000 859619 / 01244 677691**

**[BCU.ImmunisationTeamEast@wales.nhs.uk](mailto:BCU.ImmunisationTeamEast@wales.nhs.uk)**

\* Mae nifer bach iawn o blant na ddylai gael brechiad y fflw drwy chwistrell trwyn ac mae hyn yn cynnwys plant sydd: ag asthma difrifol ac yn cymryd dos uchel o steroids sy'n cael eu mewnanadlu; wedi cael cwrs diweddar o steroids drwy'r geg; wedi bod â'u brest yn gwichian neu angen defnyddio eu mewnanadlydd lleddfu'n amlach yn ystod y tridiau blaenorol; wedi bod angen gofal dwys yn flaenorol ar gyfer adwaith alergig difrifol i wyau; â system imiwnedd wannach; neu mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â system imiwnedd ddifrifol wan (yn cael ei nyrsio mewn amgylchedd gwarchodol).

SN25 08/ 2020